



Rhifyn 1 Cylchlythyr Gymdeithas Hanes Plaid Cymru Gaeaf 2013/14

PENARTH YN NODI 90 MLYNEDD O FRWYDRO

Bydd digwyddiad mawr yn y flwyddyn newydd yn dathlu'r pen-blwydd lansio nawdeg o flynyddoedd yn ôl un o'r ffrydiau a arweiniodd at eni Plaid Cymru.

Bydd darlith gan yr academig adnabyddus yr Athro Richard Wyn Jones yn olrhain ffurfio'r Mudiad Cymreig, yr oedd Saunders Lewis ymhlith eu haelodau. Bydd y cyfarfod, dan nawdd Cangen Penarth Plaid Cymru gyda chefnogaeth Cymdeithas Hanes y Blaid, i'w gynnal 90 mlynedd ar ôl ffurfio'r mudiad.

Sefydlwyd y Mudiad Cymreig yng nghartref Griffith Jones Williams ar benwythnos 5 a 6 Ionawr 1924, ac ôl Lewis mewn llythyr i'w ddyweddi bu'r rhai yno'n trafod tan y wawr ac yn cysgu tan hanner dydd.

I'ch dyddiadur: Y Mudiad Cymreig, 7:30pm 7 Ionawr 2014, Gwesty'r Hotel, 95 Windsor Road, Penarth CF64 1JE



Richard Wyn Jones gyda'r athro Daniel Williams yn y cyfarfod ymylol yn Aberystwyth.



CHWALU'R CELWYDDAU YN Y GYNHADLEDD

Paham mae nifer o wleidyddion Prydeinig wedi mynd ati i bardduo Plaid Cymru gyda'r gri o fod yn ffsgaidd, a hynny heb rithyn o dystiolaeth? A sut cawson nhw lwyddo i barhau i wneud hyn ers cymaint o amser?

Dyna thema cyfarfod ymylol niferus yn y Gynhadledd Flynyddol yn Aberystwyth eleni a anerchwyd gan yr hanesydd gwleidyddol Professor Richard Wyn Jones. Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd yr Athro Jones ddadansoddiad manwl o'r cyhuddiadau hyn a fyddai'n cael eu hail-adrodd o dro i dro dros y saith degawd diwethaf. Cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan yr Athro Daniel Williams dan nawdd Cangen Aberystwyth a'r gymdeithas hanes ar y cyd.

Mae'r llyfr yn waith darllen hanfodol i bob cenedlaetholwr. Mae'n dinoethi'r celwydd a ledaenwyd ers degawdau gan wleidyddion gwrth-Gymreig mileinig. 'Y Blaid Ffsgaidd yng Nghymru': Plaid Cymru a'r Cyhuddiad o Ffsgaeth (2013). Richard Wyn Jones. Gwasg y Brifysgol.



Mrs Iris Davies, Caerfyrddin, sy'n cofio clywed Gwynfor yn annerch Cyfarfod, a hithau'n 14 oed.

RECORDIADAU

Mae recordiad diweddaraf Hanes y Blaid yn rhoi sylw i Mrs Iris Davies, Caerfyrddin, sy'n cofio gwaith y mudiad yn ôl yn y 1930au. Dyma gyswllt i ran fach ar ein gwefan, ble mae'n cofio un o gyfarfodydd cyntaf Gwynfor Evans (yn Rhydaman, tua 1937).



Phillip Lloyd yng Nghlwb Caerffili yn ddiweddar

EIN HAMCANION


- Ymchwilio i a chofnodi gwaith Plaid Cymru
- Olrhain gwir hanes brwydr ein mudiad dros Gymru, yn lle'r fersiwn carbwl a roddir gan elynion ein gwlad

Da chi cefnogwch ein gwaith - rydym am ennill aelodau newydd, cynyddu'r nifer sy'n ymweld â'n gwefan a sicrhau ein bod yn casglu deunydd archif gwerthfawr.

DATHLU GWAITH Y MENYWOD

Gyda menywod egniol yn arwain y Blaid ac yn cyfarwyddo'i phrif swyddfa, mae'n hen bryd i gydnabod rôl ein merched wrth yrru'r mudiad cenedlaethol yn ei blaen. Nawr mae arddangosfa newydd a drefnwyd gan Drysorydd Cymdeithas Hanes Plaid Cymru Yvonne Balakrishnan yn dathlu gwaith ein haelodau benywaidd, gan gynnwys ffigyrau adnabyddus megis Kate Roberts, Nans Jones a Jennie Eirian Davies ynghyd â rhai heb fod mor amlwg.

Bu'n boblogaidd iawn ymhlith cynrychiolwyr yn y Gynhadledd - ymlaen nawr at fersiwn ar y we.



Jill Evans, ASE/MEP

Yn sylwi ar arddangosfa'r Gymdeithas Merched y Blaid—y Blynyddoedd Cynnar yng nghynhadledd y Blaid yn Aberystwyth yn ddiweddar.

RADIO CYMRU RYDD

Rhoddodd Philip Lloyd sgwrs ddarluniadol i dynnu sylw at hanes Radio Free Wales (neu'r '**Ceillog**'), yr ymgyrch darlledu anghyfreithlon a enillodd hawl Plaid Cymru i gael darllediadau gwleidyddol yn y pen draw. Roedd y sgwrs, a gynhaliwyd yng Nghlwb Rygbi Caerffili, yn un o'r diweddaraf i gael ei drefnu ar y cyd gan Hanes Plaid Cymru a changhennau lleol - diolch i Philip, y Cynghorydd Phil Bevan ac etholaeth Caerffili.